CSD2502-MI

Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Community & Social Development Committee held on 19 February 2025 at The Ostreme Centre 6.30pm and via TEAMS

**Councillors Present:** Cllrs Ian Scott (Chair), Francesca O'Brien, Phil Keeton, Pam Erasmus and Will Thomas

**Officers Present:** Paul Beynon – RFO and Ian Hughes - CSO

At the start of the meeting, the Chair, Cllr Scott introduced three members of the public who had attended in relation to agenda item **CSD2502-06** concerning the Mumbles Bowls Pavilion Grant. At Cllr Scott's invitation the three representatives introduced themselves: -
Mr Paul Thomas, the Secretary of Mumbles Croquet Club
Mr Chris Maggs of Oystermouth Bowls Club and
Mr Nigel Richards, the Secretary of Mumbles Bowls Club

**CSD2502-01** **Apologies:**
None

**CSD2502-02** **Declarations of Interest**
None

**CSD2502-03** **To approve the minutes of the previous meeting as a true record.**
To approve the minutes of the meeting held on 20 November 2024 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes from the 20 November 2024, meeting as a true and accurate record.

**CSD2502-04** **Outstanding Actions from Previous Meetings**
The CSO outlined outstanding actions.

**RESOLVED** 'Outstanding action' report to be updated by CSO.

Mumbles Community Council

**CSD2502-05** **Budget Monitoring Reports to 31/12/2024**

Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon who had previously circulated the documents to councillors.

No queries were raised with either the RFO or CSO prior to the meeting in relation to the reports.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st December 2024.

**CSD2502-06** **Mumbles Bowls Pavillion Grant**

To vire the budget of £15,000 from the CSD1-Underhill Park Grant to the Mumbles Bowls Pavillion.

Cllr O'Brien set out how in her capacity as a SCC Councillor she had obtained partial funding from SCC for the renovation of The Mumbles Bowls Club Pavilion. SCC would be providing 70% of the total cost with the remainder of the funding needing to be found elsewhere.

The refurbishment would consist of a complete overhaul of the pavilion including an asbestos inspection estimated at £47,200 together with the 'cladding' of what is known as the 'Pension Hut' at £12,500. In addition, a 10% contingency budget would be necessary leaving a total of £25,280 to be paid after SCC's 70% contribution to the work.

Cllr O'Brien explained that MCC had previously earmarked £10,000 leaving £15,280 to be found. Cllr O'Brien had met with the RFO, Paul Beynon to discuss how best to fund this shortfall. The RFO suggested that £15,000 which had been set aside for a project in Underhill Park could be transferred with councillors approval as the proposed project in Underhill would not be proceeding in the foreseeable future and that this agenda item relates to that request.

Should this transfer be recommended the shortfall of £280 will be provided through Cllr O'Brien's councillor's allowance.

Councillors were enthusiastic about the project although concerns were raised concerning why MCC should be supporting this project and not individual councillors form Mumbles or SCC in its entirety. Additional concerns were raised over the transparency of quotes and information needing to be carried out and why alternative funding such as Heritage/Lottery funding could not be provided.

Mumbles Community Council

Cllr O'Brien explained that MCC would be taking control of this asset and that only 30% of the funding had to be provided by MCC. Cllr O'Brien explained that she had provided as much information as possible and would continue to do so. Options such as Lottery Funding were not viable due to time restraints, and she also stated that this was the only occasion that she had sought funding from MCC for a project.

Councillors believed that the renovation of The Pavilion would be an asset to the whole of Mumbles and that it would compliment the engineering work being carried out at the seafront. Cllr Scott believed that Cllr O'Brien should be thanked and congratulated for hopefully arranging the funding for the renovation of the pavilion after many years of attempting to do so.

Mr Thomas, Mr Maggs and Mr Richards all spoke passionately for the grant to be approved. The chance to renovate the Bowls Club Pavilion is a golden opportunity to create a wonderful green space for the local community and visitors, one that may be lost if the opportunity of the 70% grant through SCC is not taken up. The representatives believed that MCC's contribution is great value for money and that potentially in the future the whole refurbishment work may need to be paid for by MCC should this subsidy from MCC fall through. Mr Thomas stated that MCC had paid for recommendations concerning the Pavilion in 2015 and that until Cllr O'Brien's efforts, all attempts to carry out renovation work had proved fruitless.

Cllr Scott thanked the three representatives for their attendance and contributing to the discussion.

**RECOMMENDED**: To vire the budget of £15,000 from the CSD1-Underhill Park Grant to the Mumbles Bowls Pavillion.

**CSD2502-07**

**Appointment of Committee Member**

To recommend the appointment of Cllr Trevor Carr to The Community and Social Development Committee

Cllr Scott set out that Cllr Carr who had recently joined MCC as a councillor would be an asset to the Community and Social Development Committee.

**RECOMMENDED**: To appointment Cllr Trevor Carr to The Community and Social Development Committee.

**CSD2502-08** **Exercise Equipment on West Cross Seafront Update**

Cllr Scott outlined how the purchase of exercise equipment previously agreed at Full Council should be installed at West Cross Seafront during March 2025. SCC had kindly contributed to the cost of transportation, delivery and installation of the equipment.

Meeting finished 6.59pm
Next Meeting 19th March 2025

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2025 yng Nghanolfan Ostreme 6.30pm a thrwy gyfrwng TEAMS

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ian Scott (Cadeirydd), Francesca O'Brien, Phil Keeton,
Pam Erasmus a Will Thomas

**Swyddogion yn bresennol:** Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

Ar ddechrau'r cyfarfod, cyflwynodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, dri aelod o'r cyhoedd a oedd wedi mynychu mewn perthynas ag eitem agenda **CSD2502-06** ynghylch Grant Pafiliwn Bowlio'r Mwmbwls.Ar wahoddiad y Cynghorydd Scott, cyflwynodd y tri chynrychiolydd eu hunain: -
Mr Paul Thomas, Ysgrifennydd Clwb Croquet y Mwmbwls
Mr Chris Maggs o Glwb Bowlio Ystumllwynarth a
Mr Nigel Richards, Ysgrifennydd Clwb Bowlio'r Mwmbwls

**CSD2502-01** **Ymddiheuriadau:**
Dim

**CSD2502-02** **Datganiadau o fuddiant**
Dim

**CSD2502-03** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024 yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024 fel cofnod gwir a chywir.

**CSD2502-04** **Camau gweithredu heb eu cwblhau o gyfarfodydd blaenorol**
Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau.

**PENDERFYNWYD** bod y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn diweddaru adroddiad 'camau gweithredu heb eu cwblhau'.

**CSD2502-05**

**Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Rhagfyr 2024**
Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i'r cynghorwyr yn flaenorol.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod mewn perthynas â'r adroddiadau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Rhagfyr 2024.

**CSD2502-06**

**Grant Pafiliwn Bowlio'r Mwmbwls**
Trosglwyddo'r gyllideb o £15,000 o grant CSD1-Parc Underhill i Bafiliwn Bowlio'r Mwmbwls.

Amlinellodd y Cynghorydd O'Brien sut, yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe, yr oedd wedi cael cyllid rhannol gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar gyfer adnewyddu Pafiliwn Clwb Bowlio'r Mwmbwls. Byddai Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn darparu 70% o gyfanswm y gost a byddai angen dod o hyd i weddill yr arian o rywle arall.

Byddai'r gwaith adnewyddu'n cynnwys ailwampio'r pafiliwn yn gyfan gwbl gan gynnwys archwiliad asbestos yr amcangyfrifir mai'r gost fydd £47,200 ynghyd â 'chladin' yr hyn a elwir y 'Cwt Pensiwn' am £12,500. Yn ogystal, byddai angen cyllideb wrth gefn o 10% gan adael cyfanswm o £25,280 i'w dalu ar ôl cyfraniad 70% Cyngor Dinas a Sir Abertawe at y gwaith.

Esboniodd y Cynghorydd O'Brien fod Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi clustnodi £10,000 yn flaenorol gan adael £15,280 i'w ganfod. Roedd y Cynghorydd O'Brien wedi cyfarfod â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon i drafod y ffordd orau o ariannu'r diffyg hwn. Awgrymodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y gellid trosglwyddo £15,000 a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer prosiect ym Mharc Underhill gyda chymeradwyaeth y cynghorwyr gan na fyddai'r prosiect arfaethedig yn Underhill yn mynd rhagddo yn y dyfodol rhagweladwy a bod yr eitem hon ar yr agenda yn ymwneud â'r cais hwnnw.

Os bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei argymell, bydd y diffyg o £280 yn cael ei ddarparu drwy lwfans cynghorydd y Cynghorydd O'Brien.

Roedd cynghorwyr yn frwd dros y prosiect er bod pryderon wedi'u codi ynghylch pam y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls fod yn cefnogi'r prosiect hwn ac nid cynghorwyr unigol o'r Mwmbwls neu Gyngor Dinas a Sir Abertawe yn ei gyfanrwydd. Codwyd pryderon ychwanegol ynghylch tryloywder dyfynbrisiau a gwybodaeth y mae ei hangen am y rheswm pam na ellid darparu cyllid amgen megis arian o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Eglurodd y Cynghorydd O'Brien y byddai Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cymryd rheolaeth o'r ased hwn ac mai dim ond 30% o'r cyllid oedd yn rhaid ei ddarparu gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Eglurodd y Cynghorydd O'Brien ei bod wedi darparu cymaint o wybodaeth â phosibl ac y byddai'n parhau i wneud hynny. Nid oedd opsiynau megis arian y loteri yn hyfyw oherwydd cyfyngiadau amser, a dywedodd hefyd mai dyma'r unig achlysur iddi geisio cyllid gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer prosiect.

Credai'r cynghorwyr y byddai adnewyddu'r pafiliwn yn gaffaeliad i'r Mwmbwls gyfan ac y byddai'n ategu'r gwaith peirianyddol sy'n cael ei wneud ar lan y môr. Credai'r Cynghorydd Scott y dylid diolch i'r Cynghorydd O'Brien a'i llongyfarch am drefnu'r cyllid, gobeithio y mae wedi'i gaffael, ar gyfer adnewyddu'r pafiliwn ar ôl sawl blwyddyn o geisio gwneud hynny.

Siaradodd Mr Thomas, Mr Maggs a Mr Richards i gyd yn angerddol dros gymeradwyo'r grant. Mae'r cyfle i adnewyddu Pafiliwn y Clwb Bowlio yn gyfle euraidd i greu man gwyrdd bendigedig ar gyfer y gymuned leol ac ymwelwyr, un a allai gael ei golli os na fanteisir ar y cyfle o'r grant 70% drwy Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Roedd y cynrychiolwyr o'r farn bod cyfraniad Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn werth gwych am arian ac y gallai fod angen i Gyngor Cymuned y Mwmbwls dalu'r holl waith adnewyddu yn y dyfodol pe bai'r cymhorthdal hwn gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe yn methu. Dywedodd Mr Thomas fod Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi talu am argymhellion ynglŷn â'r Pafiliwn yn 2015 a hyd nes ymdrechion y Cynghorydd O'Brien, roedd pob ymdrech i wneud gwaith adnewyddu wedi profi'n ofer.

Diolchodd y Cynghorydd Scott i'r tri chynrychiolydd am eu presenoldeb ac am gyfrannu at y drafodaeth.

**ARGYMHELLWYD:** Trosglwyddo'r gyllideb o £15,000 o grant CSD1-Parc Underhill i Bafiliwn Bowlio'r Mwmbwls.

Mumbles Community Council

**CSD2502-07** **Penodi aelod i'r pwyllgor**

Argymell penodi'r Cynghorydd Trevor Carr i'r Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol

Dywedodd y Cynghorydd Scott y byddai'r Cynghorydd Carr, a oedd wedi ymuno â Chyngor Cymuned y Mwmbwls yn ddiweddar fel cynghorydd, yn gaffaeliad i'r Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol.

**ARGYMHELLWYD:** Penodi'r Cynghorydd Trevor Carr i'r Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol.

**CSD2502-08** **Diweddariad ar offer ymarfer corff ar lan y môr yn West Cross**

Amlinellodd y Cynghorydd Scott sut y dylid gosod offer ymarfer corff y cytunwyd arno'n flaenorol yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar lan y môr yn West Cross yn ystod mis Mawrth 2025. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi cyfrannu'n garedig at gost cludo, dosbarthu a gosod yr offer.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.59pm
Cyfarfod nesaf 19 Mawrth 2025